Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pontrobert
# Meifod
# Powys
# SY22 6JN

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg yw Ysgol Pontrobert.  Mae wedi ei lleoli ym mhentref Pontrobert ym Mhowys.  Mae'n gwasanaethu'r pentref ac ardal eang wledig, sy'n cynnwys pentrefi Meifod, Bwlch y Cibau a Llangynyw.

Mae cyfanswm o 28 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.  Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.  Lleiafrif y disgyblion ddaw o aelwydydd Cymraeg.  Nid oes disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r bwriad o sicrhau bod y disgyblion yn datblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Nid oes un o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae 9% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol.  Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2008.  Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pontrobert yn 2014-2015 yw £4,548.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd ym Mhowys yw £13,848 a'r lleiafswm yw £3,007.  Mae Ysgol Pontrobert yn y 13eg safle o'r 86 ysgol gynradd ym Mhowys o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Pontrobert yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyrraedd safonau da mewn llythrennedd a rhifedd;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad uchel a bron pob disgybl yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi;
- yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog a safon yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol; a
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth â gweledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion ac wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr;
- disgwyliadau uchel y pennaeth a gwaith tîm effeithiol y staff yn creu diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus;
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad;
- arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r mannau sydd angen eu gwella a'u bod yn gweithredu'n briodol arnynt; a
- nifer o bartneriaethau strategol effeithiol, gan gynnwys y rhieni.

## Argymhellion

A1 Codi safonau sillafu'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn y ddwy iaith

A2 Sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael eu herio’n gyson ar draws y cwricwlwm

A3 Creu mwy o gyfleoedd i staff yr ysgol i gyfnewid arfer dda gydag ysgolion tu hwnt i’r ardal leol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn y gwersi.

Mae medrau gwrando'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus tra byddant wrth eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion sgwrsio'n eglur yn y Gymraeg a thrafod profiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn eiddgar i gwestiynu'r athrawon ac yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau. Mae'r mwyafrif yn medru mynegi barn mewn modd aeddfed am ystod o destunau ac yn gwrando ar gyfraniadau eraill, gan ystyried eu safbwyntiau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cyfathrebu'n eglur ac effeithiol ac yn defnyddio geirfa eang wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith yn y dosbarth. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall yn wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae safon darllen rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio'n effeithiol i ddarllen yn ystyrlon.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau a disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrlon. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen yn gelfydd i ddod o hyd i wybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn sillafu ac yn ysgrifennu'n gynyddol gywir. Maent hefyd yn gallu ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau, er enghraifft wrth fynegi barn am lyfr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. Mae safon gwaith ysgrifenedig estynedig y goreuon o ansawdd uchel, er enghraifft wrth astudio Prydain ar ddiwedd y 30au mewn hanes a chofnodi ymchwiliadau mewn gwyddoniaeth.

Mae gwaith mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er hyn, mae mwy na'r disgwyl o wallau sillafu yn amlygu yng ngwaith lleiafrif y disgyblion yn y ddwy iaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn briodol ond nid yw llawysgrifen lleiafrif y disgyblion bob amser yn adlewyrchu safon dda'r gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno data ar ffurf graffiau yn gywir, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am anifeiliaid anwes. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau'n fedrus ac yn datblygu strategaethau priodol ar gyfer datrys problemau gyda chywirdeb da, er enghraifft wrth drefnu taith wyliau. Maent yn casglu gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf tablau a graffiau, er enghraifft wrth gofnodi gwybodaeth am ragolygon tywydd ar yr Wyddfa.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'i gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws y gweithgareddau dysgu.

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd yn ei gosod yn y 25% uchaf. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi symud o'r 50% is i'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch mewn medrau iaith yn y Gymraeg wedi symud o'r 50% is i'r 25% uchaf yn ystod yr un cyfnod. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ei gosod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn y pedwar pwnc.

### Lles: Da

Mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae bron pob disgybl yn frwdfrydig, yn mwynhau eu gwersi ac yn cyfrannu'n eiddgar ymhob agwedd ar eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yr ysgol yn gyson uchel. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb hefyd yn dda.

Rhoddir lle blaenllaw i lais y disgybl sy'n cryfhau eu ymglymiad i'w dysgu a'u cymuned leol. Mae'r disgyblion yn chwarae rôl bwysig ym mywyd a gwaith yr ysgol drwy eu swyddogaethau gyda'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae'r aelodau yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol a'u hamgylchedd. Maent hefyd yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau cymdeithasol yn yr ardal.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cyfoethog yn yr ysgol a thu hwnt i'w disgyblion, gan ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ynghyd ag anghenion holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n fwriadus i fodloni anghenion bron pob disgybl. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar y profiadau blaenorol y disgyblion drwy'r ysgol. Er hyn, nid yw'r disgyblion o allu uwch bob amser yn derbyn digon o her yn y gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cynlluniau gwaith yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn talu sylw da i ddatblygu medrau cyfathrebu a rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn gyfoethog ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Trwy ymweld â safleoedd lleol hanesyddol bwysig a chymryd rhan mewn eisteddfodau a'r plygain, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth. Mae cyfraniad awduron a beirdd yn cyfoethogi'r profiadau hyn yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad bardd plant Cymru i drafod techneg ac arddull Dylan Thomas gyda'r disgyblion.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang wedi ei datblygu'n dda yn y gwersi ynghyd â thrwy weithgarwch y cyngor eco.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel a gwybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio'n drylwyr gyda ffocws clir ar atgyfnerthu'r medrau. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau effeithiol ac yn esbonio tasgau'n glir. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall anghenion y dasg dan sylw. Mae cyflymder y

gwersi ynghyd â brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion ac yn cynnig cymorth da i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Yn y gwersi, mae'r holl athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Mae marcio'r athrawon yn adeiladol ac yn ymateb i waith y disgyblion trwy gynnig syniadau ar sut i symud y dysgu yn ei flaen. Mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod y meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn effeithiol. Er hyn, nid yw'r sylwadau adborth yn y llyfrau bob amser yn cyfeirio'n benodol at y meini prawf llwyddiant. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion i fyfyrio ar eu gwaith ac mae hyn yn helpu'r disgyblion i ddysgu sut i wella eu gwaith eu hunain.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae holl ethos yr ysgol yn annog ymglymiad disgyblion i'w hysgol a'i cymuned. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad gofalgar yr ysgol o'r disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am rai llai ffodus na nhw yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da i ddisgyblion unigol ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol. Mae'n cydweithio'n agos gydag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth fuddiol iddynt o fewn y dosbarthiadau. Mae hyn yn sicrhau mynediad llawn i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau priodol ar gyfer trafod cynnydd â'r rhieni. Trwy asesiadau rheolaidd, mae'r ysgol yn dilyn eu cynnydd yn ofalus i sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â'u targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal. Mae'r holl staff yn annog ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch a gofal. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais a gwella lles a chyrhaeddiad disgyblion yn sylweddol.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau a rhoi bri ar waith y disgyblion. Mae'r parthau dysgu o fewn yr adeilad a'r tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn addas ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at fodloni'r gofynion.

Lleolir yr ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol o'r holl safle. Mae'r adeilad a'r buarth mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n drefnus. Mae ardaloedd allanol amrywiol yr ysgol yn annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Gwneir defnydd da o'r neuadd a'r parc cymunedol cyfagos i hybu datblygiad corfforol y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles y disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae disgwyliadau uchel y pennaeth a gwaith tîm effeithiol y staff yn llwyddo i greu diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus yn yr ysgol.

Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n canolbwyntio'n briodol ar safonau cyflawniad a chynnydd disgyblion. Caiff pawb ei gynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn gyson. O'r herwydd, mae pob aelod o'r staff yn deall yn dda eu cyfrifoldebau mewn perthynas uniongyrchol â chynlluniau strategol yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn cyfrannu'n briodol at brosesau hunanarfarnu trwy drafod data cyrhaeddiad, arsylwi gwersi a monitro'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel ffrindiau beirniadol effeithiol, sydd yn herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus ac mae'r cynllunio ar gyfer gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu gadarn yr ysgol yn cynnwys adolygiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd yr ysgol a sut mae'r rhain yn effeithio ar safonau'r disgyblion. Mae'r staff ac aelodau o'r corff llywodraethol yn monitro safonau a darpariaeth trwy ddadansoddi data, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi.

Mae'r adroddiadau monitro o ansawdd da ac yn cydbwyso'r cryfderau gydag argymhellion ar gyfer gwella yn briodol. O ganlyniad, mae'r monitro gan yr arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n arfarnol ac yn nodi'n gywir gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae’r ysgol yn casglu ac yn rhoi ystyriaeth deg i safbwyntiau disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr.  Er enghraifft, ar gais y disgyblion, mae’r ysgol wedi addasu’r ardal chwarae allanol, ac yn ddiweddar wedi newid logo’r ysgol.

Mae cysylltiad agos rhwng canfyddiadau’r hunanarfarnu a chynllun gwella’r ysgol. Mae'r cynllun gwella yn ddogfen glir sy'n llywio gwaith yr ysgol yn fedrus.  Mae’n cynnwys dangosyddion llwyddiant, amserlenni priodol ac adnoddau rhesymol er mwyn cyrraedd y targedau gwella.  Mae arfarniad y cynllun gwella blaenorol yn drylwyr ac yn canolbwyntio’n dda ar fesur effaith gwaith yr ysgol ar ddeilliannau’r disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol.  Mae perthynas gref rhwng y rhieni a’r ysgol.  Mae’r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus am weithgareddau’r ysgol a gwaith y dosbarth trwy lythyru cyson.  Mae’r rhieni yn gefnogol iawn o waith yr ysgol ac yn codi symiau sylweddol o arian sy’n cyfoethogi profiadau’r disgyblion.  Er enghraifft, mae’r rhieni yn talu am wersi offerynnau pres i bob disgybl o flwyddyn 2 i flwyddyn 6.  O ganlyniad, mae band pres yr ysgol wedi cael cryn lwyddiant mewn llawer eisteddfod dros nifer o flynyddoedd.

Yn sgil y cysylltiadau gwerthfawr â’r gymuned, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd cyfrannu at fywyd eu hardal leol.  Mae cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin sydd wedi’i leoli yn y neuadd gymunedol gyfagos.  Mae trefniadau pontio buddiol yn bodoli gyda’r ddwy ysgol uwchradd yr aiff y disgyblion iddynt.  Mae’r trefniadau hyn yn galluogi disgyblion i symud yn hyderus ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion y clwstwr yn sicrhau cysondeb a chywirdeb wrth asesu gwaith disgyblion.

Mae’r bartneriaeth ag ysgolion y cylch lleol yn fuddiol.  Mae’r partneriaethau yn cael effaith bositif ar waith yr ysgol, er enghraifft wrth wella’r ddarpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.  Er hyn, prin yw’r cyfleoedd i staff yr ysgol gyfnewid arfer dda gydag ysgolion tu hwnt i’r ardal leol er mwyn iddynt adeiladu cynhwysedd yr ysgol ar gyfer gwelliant pellach.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol.  Mae’n gwneud defnydd da o arbenigeddau’r athrawon a’r cynorthwywyr dysgu i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau’r disgyblion.  Mae’r cynorthwywyr yn gweithio’n effeithiol fel tîm gyda’r athrawon ac yn cyfrannu’n sylweddol at ddysgu a lles y disgyblion.

Mae’r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr athrawon a’r staff cynorthwyol yn effeithiol.  Caiff pob un o’r staff gyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, sydd yn gysylltiedig â blaenoriaethau’r ysgol.  Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol.

Mae'r ysgol yn datblygu’n effeithiol fel cymuned ddysgu.  Enghraifft o hyn yw’r cydweithio agos gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, a gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, maent yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu holl adnoddau, gan gynnwys y grant amddifadedd disgyblion effeithiol, ac maent yn gwneud penderfyniadau cyllidebol priodol yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried y deilliannau da yn yr ysgol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662041 - Ysgol Pontrobert**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 6 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 71.4 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 50.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.9 | 33.3 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | * |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662041 - Ysgol Pontrobert**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 5 | * | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 40.0 | * | 66.7 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | * | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 20.0 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 60.0 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 80.0 | * | 66.7 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 12<br>75% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 17 | 13<br>76% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 17 | 12<br>71% | 5<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 17 | 14<br>82% | 3<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 17 | 9<br>53% | 8<br>47% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 11<br>65% | 5<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 17 | 10<br>59% | 7<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 17 | 14<br>82% | 3<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 17 | 10<br>59% | 7<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 17 | 10<br>59% | 7<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 17 | 10<br>59% | 7<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 12<br>71% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 17 | 13<br>76% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Morris-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catherine Parry | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.